# <u>Trefniadau Derbyn Ysgolion</u>

# <u>Cyngor Sir Ddinbych</u>

Blwyddyn Ysgol 2025/26

Adran 1: Cyflwyniad ac Amserlen ..... 1
1.1 Mathau o ysgolion ..... 1
Adran 2: Y cylch derbyn arferol ..... 2
2.1 Ymgeisio am le mewn ysgol ym mis Medi 2025 ..... 3
2.2 Ceisiadau ar amser a cheisiadau hwyr ..... 3
2.3 Mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael ..... 4
2.3.1 Cynradd ..... 4
2.3.2 Uwchradd ..... 5
2.4 Prawf preswylio ..... 5
Adran 3: Trosglwyddo rhwng ysgolion ..... 6
3.1 Cychwyn yn yr ysgol newydd ..... 7
3.2 Derbyn disgyblion anodd eu lleoli/diamddiffyn ..... 7
Adran 4: Ymgeiswyr aflwyddiannus ..... 8
4.1 Gwrthod ac apelio ..... 8
4.2 Rhestrau aros ..... 8
4.2.1 Trosglwyddiadau rhwng ysgolion ..... 8
4.2.2 Y cylch derbyn arferol ..... 8
Adran 5: Geirfa a diffiniadau termau ..... 9
Cyfrifoldeb Rhieni ..... 9
Ysgol addas agosaf ..... 9
Plant sy'n Derbyn Gofal ..... 10
Brawd/chwaer ..... 10
Plant o enedigaeth luosog ..... 10
Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ..... 10
Derbyn i Ysgolion Arbennig ..... 10
Lleoli plant Diamddiffyn ..... 11
Addysg gynnar ..... 11
Ysgol Borthi ..... 11

# Adran 1: Cyflwyniad ac Amserlen

Cyngor Sir Ddinbych yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion Cymunedol ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir o fewn ei ardal, hynny yw, hwn yw'r corff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch mynediad disgyblion i'r ysgolion hynny. Mae dau fath arall o ysgolion yn Sir Ddinbych: Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ymddiriedolaeth Wirfoddol a Gynorthwyir. Mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion hyn yn gyfrifol am brosesau derbyn eu hysgolion eu hunain.

Mae rhestr lawn o ysgolion ar gael yn y llyfryn gwybodaeth cyfredol mae 'Ysgolion Sir Ddinbych' ar wefan Sir Ddinbych (http://www.denbighshire.gov.uk/addysg) o dan y cyfleuster 'canfod ysgolion'.

Mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu yn unol â Deddf Addysg 2002 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, wedi'i seilio ar ganllawiau a ddarperir yn y Cod Derbyn i Ysgolion 2013.

**Amserlen Derbyniadau**

| Cam Derbyn | Ffurflenni derbyn ar gael i rieni w/c | Cyfnod ystyried rhieni | Dyddiad cau i dderbyn ffurflenni wedi'u llenwi | Rhieni'n cael gwybod erbyn ("dyddiad cynnig") |
|---|---|---|---|---|
| **Uwchradd** | 02/09/2024 | 02/09/2024 - 04/11/2024 | 04/11/2024 | 03/03/2025 |
| **Iau** | 23/09/2024 | 23/09/2024 – 18/11/2024 | 18/11/2024 | 16/04/2025 |
| **Derbyn** | 23/09/2024 | 23/09/2024 – 18/11/2024 | 18/11/2024 | 16/04/2025 |
| **Meithrin** | 23/09/2024 | 23/09/2024 – 17/02/2025 | 17/02/2025 | 06/05/2025 |

## 1.1 Mathau o ysgolion

Mae'r holl fathau o ysgolion isod yn cael eu cynnal yn llawn neu'n rhannol gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae ysgolion Ymddiriedolaeth Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cynnal eu hadeiladau eu hunain ac yn gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio, ac mae ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cael eu cynnal yn rhannol gan yr esgobaeth berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.

| | Saesneg | Cymraeg | Iaith Ddeuol | Dwyieithog |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymunedol | 26 | 13 | | 2 |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir | 5 | 2 | 1 | |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir | 2 | | | |
| Ysgol Ymddiriedolaeth Wirfoddol a Gynorthwyir | 1 | | | |

**Ysgolion Cymunedol**

Nid yw ysgolion cymunedol yn gysylltiedig ag unrhyw gorff crefyddol, er y gall gwasanaeth yr ysgol gynnwys gweddi Gristnogol yn ôl disgresiwn y Pennaeth.

**Ysgolion Gwirfoddol a Reolir**

Yn Sir Ddinbych, mae'r holl ysgolion gwirfoddol a reolir yn gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru ac fe'u hystyrir yn ysgolion ffydd.

**Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Ymddiriedolaeth Gwirfoddol a Gynorthwyir**

Mae un ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru, ac mae un yn gysylltiedig â'r Esgobaeth Gatholig Rufeinig. Mae ysgol arall yn dilyn ethos ysgol Gatholig ond nid yw'n cael ei chydnabod yn swyddogol gan yr esgobaeth. Ystyrir y rhain oll yn ysgolion ffydd.

# Adran 2: Y cylch derbyn arferol

Mae'r 'cylch derbyn arferol' yn cyfeirio at y pwynt trosglwyddo o:

- Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 (cynradd i uwchradd)
- Blwyddyn 2 i Flwyddyn 3 (babanod i iau yn unig)
- Meithrin i'r Derbyn (mewn ysgol fabanod/cynradd yn unig)
- Cylch Chwarae i'r Meithrin

Nid yw'r trosglwyddiad o un cam i'r llall yn digwydd yn awtomatig; mae'n **rhaid** i rieni gyflwyno cais ar gyfer pob un o'u plant er mwyn eu hystyried ar gyfer yr ysgol ddewisol, ac ni fydd mynychu unrhyw ysgol neu gylch chwarae penodol yn dylanwadu nac yn sicrhau y derbynnir y plentyn i'r ysgol ddewisol. Gweler y meini prawf pan fydd gormod o geisiadau sydd wedi'u rhestru yn adran 2.3 am fanylion ynghylch pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried.

Mae'r tabl isod yn dangos y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael i blant a aned rhwng y dyddiadau canlynol:

| | Rhaid bod y plentyn wedi'i eni rhwng: |
|---|---|
| **Meithrin** | 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022 |
| **Dosbarth Derbyn** | 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021 |
| **Iau (bl 3)** | 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018 |
| **Uwchradd** | 1 Medi 2013 a 31 Awst 2014 |

Noder nad oes *ond* angen gwneud cais am le mewn ysgol Iau pan fydd plentyn yn mynychu Blwyddyn 2 unai yn Ysgol Fabanod Llanelwy neu yn Ysgol y Parc. Mae'n rhaid i rieni y mae eu plant yn mynychu ysgol fabanod ond sy'n dymuno anfon eu plentyn i ysgol gynradd (i gychwyn fis Medi 2025) gyflwyno ffurflen gais am drosglwyddo rhwng ysgolion heb fod ynghynt na diwrnod cyntaf y tymor yn dilyn gwyliau Pasg 2025.

## 2.1 Ymgeisio am le mewn ysgol ym mis Medi 2025

Er mwyn i'ch plentyn gael ei ystyried ar gyfer eich ysgol ddewisol, bydd yn rhaid i chi wneud cais am le unai ar-lein neu drwy gyflwyno ffurflen bapur. Unwaith y byddwn yn derbyn eich ffurflen, byddwn yn darparu derbynneb drwy neges destun/e-bost os byddwch wedi gofyn am un (mae hyn yn awtomatig os gwneir y cais ar-lein). Noder mai unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant yn unig a all gyflwyno cais (e.e. ond trwy fabwysiadu neu lys cyfreithiol y gall llys-rieni neu deidiau a neiniau gael cyfrifoldeb rhieni). Os yw'r rhieni'n anghytuno ar yr ysgol ddewisol, mae'n rhaid datrys hyn yn breifat neu drwy'r llysoedd. Dim ond y cais a dderbynnir gyntaf y byddwn yn ymdrin ag o; ni fyddwn yn ystyried ceisiadau dilynol oni bai bod y ddwy ochr yn cytuno â'r dewis(iadau).

Mae ffurflenni cais ar gael ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn.  Mae'r tabl isod eto'n crynhoi'r un wybodaeth a ddangoswyd yn yr amserlen derbyn (adran 1). Gweler y tabl isod ar gyfer y dyddiadau ymgeisio posib a'r dyddiadau cau perthnasol.

| | **Gallwch ymgeisio o:** | **Dyddiad cau:** | **Byddwn yn ymateb erbyn:** |
|---|---|---|---|
| Meithrin | 23/09/2024 | 17/02/2025 | 06/05/2025 |
| Dosbarth Derbyn | 23/09/2024 | 18/11/2024 | 16/04/2025 |
| Iau (bl 3) | 23/09/2024 | 18/11/2024 | 16/04/2025 |
| Uwchradd | 02/09/2024 | 04/11/2024 | 03/03/2025 |

Noder y gallai gwneud cais ar ôl y dyddiad cau effeithio'n negyddol ar eich cyfle i dderbyn cynnig ar gyfer eich ysgol ddewisol. Os ydych yn gwneud cais yn hwyr ar unrhyw gymal o'r broses dderbyn, argymhellir eich bod yn enwi mwy nag un ysgol gan y gall yr holl leoedd sydd ar gael mewn un ysgol fod wedi eu clustnodi i'r rhai wnaeth gais o'ch blaen.

Os ydych yn byw y tu allan i Sir Ddinbych ond am wneud cais i ysgol Sir Ddinbych, mae'n **rhaid** i chi a'r awdurdod lleol y cyflwynoch chi eich cais iddo sicrhau ei fod yn ein cyrraedd cyn y dyddiadau a nodir uchod. Gweler adran 2.2 ynghylch sut y caiff ceisiadau hwyr eu trin.

Mae Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gydag ALlau cyfagos i gydlynu trefniadau derbyn yng Ngogledd Cymru. Bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod derbyn addas. Nodwch y gall amserlenni awdurdodau lleol cyfagos fod yn wahanol i'r hyn a geir uchod. Os yw'r ysgol rydych yn ei ffafrio mewn Sir arall, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol priodol i sicrhau nad ydych yn methu'r dyddiad cau:

Cyngor Sir y Fflint – admissions@flintshire.gov.uk; Ffôn: 01352 752121
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – admissions@wrexham.gov.uk; Ffôn: 01978 298991
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - education@conwy.gov.uk; Ffôn: 01492 575031/032

Bydd cyfle i rieni sy'n gwneud cais am le Meithrin 2025 ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i gyflwr/gyflyrau meddygol eu plentyn. Er na fydd y wybodaeth hon yn dylanwadu wrth benderfynu ar dderbyn, bydd yn ddefnyddiol i'r ysgol sy'n derbyn ac a fydd yn gyfrifol am gefnogi'r plant/plentyn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i rhannu gydag adrannau mewnol yn ôl yr angen yn unig.

## 2.2 Ceisiadau ar amser a cheisiadau hwyr

Yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, rhaid delio â cheisiadau ar amser o flaen ceisiadau hwyr.

Ymdrinnir â cheisiadau ar amser ynghyd ac yn unol â'r meini prawf pan fo gormod o geisiadau, sydd i'w gweld yn adran 2.3. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn ystod y 'cyfnod hwyr' perthnasol (isod) hefyd yn cael eu hystyried gyda'r un meini prawf unwaith y bydd y ceisiadau ar amser wedi'u prosesu.

| | Cyfnod 'hwyr' | | |
|---|---|---|---|
| Meithrin | 18/02/2025 | to | 18/03/2025 |
| Dosbarth Derbyn | 19/11/2024 | to | 19/01/2025 |
| Iau | 19/11/2024 | to | 19/01/2025 |
| Uwchradd | 05/11/2024 | to | 19/01/2025 |

Os oes digon o le i'r holl ymgeiswyr a wnaeth gais yn ystod y cyfnod hwyr perthnasol, bydd pob un yn derbyn cynigion. Os nad oes digon o leoedd, bydd y lleoedd sy'n weddill yn cael eu dyrannu'n unol â'r meini prawf pan fo gormod o geisiadau.

Bydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn ar ôl y cyfnod perthnasol yn cael eu prosesu yn nhrefn eu dyddiadau, gan ystyried y cynharaf gyntaf. Os byddwn yn derbyn sawl cais ar yr un diwrnod yn enwi'r un ysgol, byddwn yn defnyddio'r meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau i roi trefn ar y ceisiadau hynny ac yn cynnig lle i'r plentyn/plant mwyaf cymwys.

Os nad oes lleoedd ar ôl unwaith y bydd y ceisiadau ar amser wedi'u prosesu, ni fydd cynigion am le i'r rhai sydd wedi ymgeisio'n hwyr.

Os oes gennych reswm da dros beidio â gwneud cais cyn y dyddiad cau cyhoeddedig, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth i gefnogi hyn. Os gall yr Awdurdod gredu'n rhesymol na allech fod wedi ymgeisio ar amser yn llwyr oherwydd eich amgylchiadau, efallai y byddwn yn ystyried eich cais fel un ar amser. Os na allwch ddarparu'r dystiolaeth neu os yw'r dystiolaeth yn annigonol, bydd eich cais yn cael ei ystyried fel un hwyr. Bydd modd ystyried amgylchiadau o'r fath pan fydd peth amser cyn cynnig lleoedd; os oes nad oes digon o amser i ystyried eich cais cyn inni gynnig lleoedd, neu os y gwnewch eich cais ar ôl cynnig lleoedd, bydd y cais yn aros yn un hwyr.

## 2.3 Mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael

Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael erbyn y dyddiad cau perthnasol, bydd ceisiadau ar amser ar gyfer yr ysgol honno'n cael eu trefnu yn ôl meini prawf Sir Ddinbych pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae meini prawf gwahanol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

Er mwyn datrys y broblem o ormod o geisiadau ym mhob maen prawf, byddwn yn defnyddio'r meini prawf sy'n weddill i wahanu'r rhai hynny fydd yn derbyn cynigion oddi wrth y rhai sydd leiaf cymwys e.e. os oes gormod o deuluoedd yn gymwys dan faen prawf 3, byddwn yn defnyddio meini prawf 4, 5, a 6 i lunio rhestr fer ohonynt.

Os **nad** oes gormod o geisiadau ar gyfer yr ysgol y gwneir y cais amdani, bydd pob ymgeisydd yn derbyn cynnig.  Os **oes** gormod o geisiadau am yr ysgol ddewisol, bydd yr holl geisiadau'n cael eu trefnu a bydd lleoedd yn cael eu cynnig hyd ar y nifer derbyn; bydd y rhai sydd leiaf cymwys yn cael eu gwrthod.

### 2.3.1 Cynradd

1. Plant â statws Derbyn Gofal a phlant â statws "wedi derbyn gofal yn y gorffennol"
2. Plant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n enwi'r ysgol ddewisol.
3. Plant lle mai'r ysgol ddewisol yw'r 'ysgol addas' agosaf yn ôl y llwybr cerdded byrraf o ystyried oedran y plentyn, a dewis yr ymgeisydd o ran ysgol Gymraeg neu ysgol ffydd (ar gyfer ysgolion sy'n gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru)

4. Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol ddewisol ar y dyddiad derbyn disgwyliedig.
5. Plant o enedigaethau lluosog, lle mae'r brodyr/chwiorydd wedi gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn.
6. Y pellter o'u cartref at giât yr ysgol ddewisol, wedi'i fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf.

### 2.3.2 Uwchradd

1. Plant â statws Derbyn Gofal a phlant â statws "wedi derbyn gofal yn y gorffennol"
2. Plant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n enwi'r ysgol ddewisol.
3. Plant lle mai'r ysgol ddewisol yw'r 'ysgol addas' agosaf yn ôl y llwybr cerdded byrraf o ystyried oedran y plentyn, a dewis yr ymgeisydd o ran ysgol Gymraeg neu ysgol ffydd (ar gyfer ysgolion sy'n gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru)
4. Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol ddewisol ar y dyddiad derbyn disgwyliedig.
5. Plant y mae eu hysgol gynradd/iau yn ysgol borthi* ddynodedig ar gyfer yr ysgol uwchradd ddewisol.
6. Plant o enedigaethau lluosog, lle mae'r brodyr/chwiorydd wedi gwneud cais am le yn yr un grŵp blwyddyn.
7. Y pellter o'u cartref at giât yr ysgol ddewisol, wedi'i fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf.

*Ystyrir ysgol gynradd/iau'r plentyn yn ysgol 'borthi' os mai honno, ar adeg ymuno â'r ysgol, oedd yr ysgol addas agosaf ar gartref y plentyn ar y pryd.

## 2.4 Prawf preswylio

Os fydd ysgol benodol wedi'i ordanysgrifio erbyn y dyddiad cau perthnasol, bydd yr holl geisiadau a dderbynnir ar amser yn cael eu hasesu eto yn erbyn meini prawf gordanysgrifio. Byddwn yn cadarnhau eich bod yn byw yn yr eiddo a nodir gan ddefnyddio ein cofnodion Treth y Cyngor; fodd bynnag os nad chi yw'r person dynodedig ar y cofnodion hynny, byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro ein bod angen tystiolaeth eich bod yn byw yn yr eiddo a nodir. Cewch gyfnod penodol (tua 5 wythnos) i gyflwyno ffurflen briodol fel tystiolaeth i ddangos manylion yr ymgeisydd. Lle bynnag bosibl, gall yr Awdurdod groesgyfeirio'r wybodaeth prawf preswylio a ddarperir gyda'r wybodaeth a gedwir gan adrannau eraill yn Sir Ddinbych. Bydd y mathau o dystiolaeth a dderbynnir wedi'i nodi yn y cais, ond bydd yn sicr o gynnwys:

- Trwydded deledu ddiweddar,
- Trwydded yrru ddilys y DU,
- Bil cyfleustodau diweddar,
- Cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi.

NI FYDD fydd mathau penodol o dystiolaeth yn cael eu derbyn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r mathau canlynol o ddogfennau:

- Dogfennau neu ddatganiadau morgais
- Dogfennau neu ddatganiadau banc
- Dogfennau budd-daliadau plant
- Dogfennau HMRC
- Dogfennau GIG
- Dogfennau yswiriant cartref
- Slip cyflog

Bydd y rhai sy'n methu â darparu prawf addas (neu sydd heb gyflwyno dim) yn cael eu hystyried o dan y maen prawf nesaf sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau. Os mai'r 'pellter o'ch cartref' i'r ysgol yw'r maen prawf nesaf sy'n berthnasol i chi, byddwch yn cael eich ystyried ar ôl yr holl ymgeiswyr eraill a ddychwelodd dystiolaeth dderbyniol.

Os gwnaethoch gais ar amser, ond os methoch chi â darparu prawf addas (neu os na gyflwynwyd dim), bydd eich plentyn yn dal i gael ei ystyried **o flaen** ymgeiswyr hwyr.

Pan roddir gwybodaeth dwyllodrus neu gamarweiniol yn fwriadol i gael lle mewn ysgol i blentyn, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig ar gyfer lleoliad yn ôl. Os yw lle yn cael ei dynnu'n ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, mae gennych yr hawl i ymgeisio eto a bydd y cais yn cael ei ystyried yn deg. Os gwrthodir eich cais, bydd gennych yr hawl i apelio oni bai y bydd eich plentyn yn oed Meithrin.

# Adran 3: Trosglwyddo rhwng ysgolion

Dylid ystyried newid ysgol fel yr opsiwn olaf a dylid gwneud pob ymdrech i gadw'ch plentyn yn ei ysgol/hysgol bresennol cyn ymgeisio; gall newid ysgol hyd yn oed unwaith fod yn niweidiol i addysg a lles plentyn.

Er mwyn ystyried i'ch plentyn gael trosglwyddo rhwng ysgolion, rhaid i chi yn gyntaf gwblhau'r ffurflen gais berthnasol. Wrth ystyried eich cais, byddwn yn adolygu trefniadau'r dosbarth a strwythur grŵp blwyddyn eich dewis ysgol er mwyn penderfynu os gallai un disgybl arall roi cam i'r rhai sydd eisoes yn yr ysgol, ac os byddai'n cael effaith negyddol ar ddarparu addysg effeithiol. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i awdurdodau derbyn wrthod ceisiadau os byddai derbyn yn anfantais i addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithiol (neu'r ddau).

Yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddir y nifer derbyn fel dangosydd i bennu a ellir derbyn plentyn arall, ond mewn ysgolion llai neu pan fo trefn o gymysgu blynyddoedd, byddwn hefyd yn ystyried faint o le sydd yn y dosbarth perthnasol ac a yw'r dosbarth hwnnw eisoes yn llawn. Mewn nifer fechan o achosion, efallai na fyddai'r nifer derbyn wedi'i chyrraedd ond y byddai anfantais er hynny, gan ddibynnu ar strwythurau dysgu.

Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant, gallwch gyflwyno cais am drosglwyddo ysgol os oes arnoch angen symud eich plentyn o un ysgol i un arall, a gallwch roi rhesymau dros eich cais ar eich ffurflen. Os yw'r rhieni'n anghytuno ar yr ysgol ddewisol, mae'n rhaid datrys hyn yn breifat neu drwy'r llysoedd. Os yw'r plentyn eisoes yn mynychu ysgol leol sydd o fewn pellter rhesymol i'r prif gartref, nid ymdrinnir â'r cais i drosglwyddo nes y bydd y ddwy ochr yn cytuno ar newid ysgol.

Os ydych chi a'ch teulu yn symud ardal a'ch bod wedi cael cynnig lle(oedd) i'ch plentyn(plant) yna byddwn angen cadw'r lle(oedd) hynny hyd at ddiwedd y tymor ysgol – ac-yn ôl eich doethineb - hyd at 2 wythnos i mewn i'r tymor canlynol. Os na fyddwch yn gallu derbyn y lleoedd hyn o fewn yr amserlen hon byddwch angen ailymgeisio yn agosach at y dyddiad a drefnwyd i symud/derbyn.

Nodwch, os ydych wedi dewis anfon eich plentyn i ysgol nad yw'r Awdurdod yn ei hystyried yn ysgol agosaf at eich cartref, ni fyddwch yn gymwys am gludiant ysgol am ddim. Mae rhieni / gofalwyr yn cael eu hysbysu i ystyried goblygiadau cludiant yr ysgol cyn dangos ffafriaeth am le yn yr ysgol. Mae polisi Cludiant Dysgwyr yr Awdurdod yn rhoi rhagor o wybodaeth ac ar gael ar wefan Sir Ddinbych.

## 3.1 Cychwyn yn yr ysgol newydd

Os byddwn yn gallu cynnig lle i'ch plentyn, bydd y dyddiad cychwyn fel arfer ar ddiwrnod cyntaf tymor neu hanner tymor yr ysgol newydd, p'un bynnag sydd gyntaf. Byddwn yn ystyried amgylchiadau sy'n gofyn am gychwyn yn syth fel symud tŷ (nid yw'n cynnwys symud o fewn yr un dref), materion/pryderon o ran amddiffyn plant, rhesymau meddygol, ac ati, er mwyn sicrhau bod y plant hynny yn cael mynediad i'r ysgol newydd cyn gynted â phosib. Efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth yn cefnogi'ch cais am gael cychwyn yn syth.

## 3.2 Derbyn disgyblion anodd eu lleoli/diamddiffyn

Bwriad Cyngor Sir Ddinbych yw rhoi lle i blant diamddiffyn cyn gynted â phosib, er y gall hyn olygu na fyddwch yn derbyn cynnig yn eich ysgol ddewisol.

Gall 'plant diamddiffyn' gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Blant sy'n Derbyn Gofal/Plant sydd Wedi Derbyn Gofal yn y Gorffennol
- Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig
- Plant ag anghenion cefnogi ymddygiad
- Gofalwyr ifainc
- Plant o deuluoedd y lluoedd arfog
- Plant sy'n ffoaduriaid/plant o dramor
- Plant sy'n cael eu hystyried gan weithwyr proffesiynol mewn perygl o "fynd ar goll o addysg".

# Adran 4: Ymgeiswyr aflwyddiannus

## 4.1 Gwrthod ac apelio

Os nad ydych wedi llwyddo i gael lle i'ch plentyn yn eich ysgol ddewisol, gallwch apelio'n swyddogol yn erbyn y penderfyniad. Fodd bynnag, os yw'ch plentyn wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio lleoliad meithrin, nid oes hawl i apelio gan nad yw'n addysg orfodol.

Yn ein gohebiaeth yn nodi pam y gwrthodwyd eich cais, byddwn yn cynnwys ffurflen apelio a chanllawiau apelio. Os ydych yn dewis apelio, rhaid i chi gwblhau a dychwelyd y ffurflen i'r cyfeiriad a ddarperir.

Gwrandewir ar bob apêl gan banel annibynnol, ac mae penderfyniad y panel yn rhwymo'r Awdurdod a'r rhiant yn gyfreithiol. Os ydych yn aflwyddiannus wrth apelio, nid oes hawl i apelio wedyn mewn perthynas â'r un flwyddyn academaidd.

## 4.2 Rhestrau aros

Mae gennym ni ddau fath o restrau aros – un ar gyfer trosglwyddiadau rhwng ysgolion ac un ar gyfer y cylch derbyn arferol.

Pryd bynnag daw lle ar gael, byddwn yn edrych ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol honno ac yn gosod y disgyblion mewn trefn gan ddefnyddio ein meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau (gweler adran 2.3). Os mai eich plentyn chi sydd fwyaf cymwys, bydd yr awdurdod yn cysylltu â chi er mwyn trafod.

Ar gyfer y cylchres dderbyn arferol, bydd yr Awdurdod yn cadw enw'r disgybl ar y rhestr aros hyd at y 30ain o Fedi (am y flwyddyn dan sylw), a gall rhieni/gofalwyr ofyn am ymestyn hyn fesul tymor, ond yn ogystal a hyn, bydd rhaid cael cais trosglwyddo newydd hefyd, gweler (4.2.2).

Ar gyfer trosglwyddiadau ysgol, mae'n gyfrifoldeb ar y rhiant / gofalwr i ofyn i'w plentyn gael ei ychwanegu at y rhestr aros. Bydd eu henw wedyn yn cael ei gadw ar y rhestr aros am un tymor ysgol llawn, ac ar ôl hynny, cyfrifoldeb rhiant / gofalwr yw cysylltu â'r Awdurdod eto os ydynt am ymestyn yn bellach, o dymor i dymor. Darperir yr holl fanylion hyn yn yr ohebiaeth y mae'r Awdurdod yn ei anfon wrth wrthod lle.

### 4.2.1 Trosglwyddiadau rhwng ysgolion

Pan fo lle wedi'i wrthod i blentyn yn unrhyw ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir, bydd cyfle i rieni gysylltu â'r Awdurdod a gosod eu plant/plentyn ar restr aros.

Mae plant yn aros ar y rhestr aros am un tymor ysgol. Gall rhieni gysylltu â'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod hwn er mwyn ymestyn y cyfnod y bydd eu plentyn/plant yn aros ar y rhestr am dymor cyfan arall. Gellir gwneud hyn bob tymor.

Fel arfer, os gallwn gynnig lle i chi o'r rhestr aros, y dyddiad cychwyn fydd diwrnod cyntaf tymor/hanner tymor nesaf yr ysgol.

### 4.2.2 Y cylch derbyn arferol

Cewch eich rhoi ar y rhestr hon yn awtomatig os gwrthodwyd lle Meithrin, Derbyn, Iau neu Uwchradd 2025 i'ch plentyn. Rhaid i rieni sy'n dymuno i'w plant gael eu hystyried ar gyfer lleoedd ar ôl hynny gyflwyno ffurflen Trosglwyddo Ysgol heb fod ynghynt na 1 Hydref 2024.

# Adran 5: Geirfa a diffiniadau termau

## Cyfrifoldeb Rhieni

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig.
- Mae gan dadau gyfrifoldeb rhiant dros blentyn os oedd y tad yn briod â'r fam pan aned y plentyn. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ailbriodi, hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddynt.
- Mae gan dadau dibriod gyfrifoldeb rhiant lle bo'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma newid i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol).
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath, gellir awdurdodi cyfrifoldeb rhiant trwy gael gafael ar Orchymyn Preswylio, Cytundeb neu Orchymyn Cyfrifoldeb Rhiant, trwy gael eich penodi yn Warcheidwad/Gwarcheidwad Arbennig; trwy gael eich enwi mewn gorchymyn amddiffyn brys (a gyfyngir i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu berson ifanc); neu drwy fabwysiadu.

## Ysgol addas agosaf

Ystyrir ysgol addas yn un sy'n briodol ar gyfer yr ymgeisydd o safbwynt:

- Oedran
- Dewis Cymraeg / Saesneg
- Dewis ffydd (ysgolion gwirfoddol a reolir yn gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru)

yn ôl pellter y llwybr cerdded byrraf o gartref y disgybl at giât agosaf yr ysgol.

Cyfrifir pob pellter trwy ddefnyddio system fapio sy'n seiliedig ar yr arolwg ordnans.

Rhaid i'r cyfeiriad cartref fod yn gartref y disgybl ac nid, er enghraifft, yn gartref gwarchodwr neu nain neu daid y plentyn.

**Noder**: Mae gwybodaeth am eich ysgol agosaf ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy chwilio am 'Fy Ysgol Leol' ac ar wefan Sir Ddinbych o dan chwiliadau 'Dod o hyd i Ysgol' a 'Fy Eiddo'. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â pha un yw eich ysgol agosaf, e-bostiwch eich ymholiad at admissions@denbighshire.gov.uk .

Os ydych yn dewis anfon eich plentyn i ysgol nad yw'r Awdurdod yn ei ystyried fel yr un agosaf sy'n addas i'ch cartref, ni fyddwch yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim. Cynghorir rhieni/ Gofalwyr i ystyried goblygiadau trafnidiaeth ysgol cyn gwneud mynegiant o ffafriaeth am le yn yr ysgol. Mae Polisi Cludiant i Ddysgwyr yr Awdurdod 2018 yn darparu gwybodaeth bellach ac ar gael ar wefan Sir Ddinbych.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

Plentyn sy'n "derbyn gofal" gan yr Awdurdod Lleol yw "Plentyn sy'n derbyn gofal", yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

Mae "plentyn sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol" yn blentyn sydd wedi "derbyn gofal" gan yr Awdurdod Lleol ryw dro'n ystod eu bywyd, yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

## Brawd/chwaer

Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer llawn, hanner brawd/chwaer, llysfrawd/llyschwaer (boed hynny drwy briodas neu gyd-fyw), neu frawd neu chwaer wedi'i f/mabwysiadu neu faethu.

Er mwyn ystyried cysylltiad brawd neu chwaer:

- rhaid i frodyr/chwiorydd fyw yn yr un cyfeiriad â'r ymgeisydd ar adeg y cais
- rhaid i'r brawd neu'r chwaer hynaf fod o oedran ysgol statudol a bod wedi cofrestru yn yr ysgol ddewisol pan fydd y plentyn iau'n gymwys i fynychu.

## Plant o enedigaeth luosog

Gefeilliaid, tripledi, pedrypledi, ac ati, sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn achosion pan fo un lle'n weddill mewn ysgol, mae deddfwriaeth yn caniatáu i bob plentyn o enedigaeth luosog gael eu derbyn i'r ysgol. Mae Rheoliadau'n datgan na chaiff dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion gydag un athro/athrawes, ond bellach mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Dderbyn i Ysgolion yn ystyried os bydd maint y dosbarth yn fwy na 30 oherwydd derbyn plant o enedigaeth luosog yna gellir eu hystyried fel eithriad i'r rheol hon.

## Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg

Polisi Sir Ddinbych yw y dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a bod pob plentyn a pherson ifanc yn Sir Ddinbych yn cael y cyfle i fod yn ddwyieithog.

Disgwylir i ddisgyblion sydd wedi mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg barhau â'u haddysg mewn ysgol uwchradd sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg.

Gall disgyblion drosglwyddo o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, a byddant yn cael eu cefnogi gan Dîm Cynghori Cymraeg Sir Ddinbych i ddilyn cwrs trochi dwys a dod yn rhugl yn y Gymraeg.

Gall disgyblion drosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir, Ysgol Glan Clwyd. Byddant yn cael cynnig y cynllun trochi sydd ar gael ar ddiwedd Blwyddyn 6 a'r holl ffordd drwy Flwyddyn 7 gan alluogi dysgwyr i ddod yn rhugl yn y Gymraeg mewn cyfnod byr o amser. Am ragor o fanylion am y cynllun cysylltwch ag Ysgol Glan Clwyd, ffoniwch: 01745 582611.

## Derbyn i Ysgolion Arbennig

Fel arfer, dim ond pan fo gan ddisgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig a gyhoeddwyd dan Ddeddf Addysg 1996 y bydd Ysgolion Arbennig yn derbyn disgyblion. Gweinyddir y weithdrefn ddatgan gan yr uned Cynhwysiant yn Neuadd y Sir, Rhuthun. (Ffôn: 01824 708064)

## Lleoli plant Diamddiffyn

Mae grwpiau o blant diamddiffyn sydd o bosibl wedi profi achosion bywyd penodol lle bydd mwy o risg iddynt fynd "ar goll o addysg". Mewn achosion lle rydym yn cael gwybod am amgylchiadau arbennig plentyn neu berson ifanc “diamddiffyn”, byddwn yn cynnig lle mewn ysgol addas cyn gynted ag y bo modd.  Rhaid i'r cais fod wedi’i gefnogi gan dystiolaeth ffeithiol gan naill ai swyddog meddygol proffesiynol, swyddog addysg broffesiynol neu weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

## Addysg gynnar

Gall plant gael mynediad at ddarpariaeth cylch chwarae, yn rhad ac am ddim, yn cychwyn o'r tymor ysgol yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed tan ddiwedd yr un flwyddyn academaidd. Ariennir y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru. Cewch ffurflen gais gan y cylch chwarae, a bydd disgwyl i chi ddarparu copi o dystysgrif geni eich plentyn a phrawf o gyfeiriad er mwyn cofrestru.

## Ysgol Borthi

Mae cysylltiad cydnabyddedig rhwng ysgolion iau a chynradd ac ysgolion uwchradd penodol, ac fe gyfeirir atynt fel ysgolion porthi. Fel arfer, mae disgyblion o’r ysgolion porthi hyn yn ymuno â’r ysgol uwchradd ddynodedig ac mae cymunedau cyfan wedi parhau â’r arfer hon am genedlaethau. Er nad yw mynychu ysgol borthi’n sicrhau y derbynnir y plentyn i’r ysgol uwchradd honno, bydd yn cael ei ystyried os daw gormod o geisiadau i law.  Nid oes unrhyw systemau o ran ysgolion porthi ar gyfer unrhyw bwynt trosglwyddo arall.